OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 312 (Cy. 102)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed - - - - 3 Mawrth 2016*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 22(8)(b) ac adran 118(7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), adrannau 87, 119(2) a (7) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 yn union ar ôl i Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 ddod i rym(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 wedi eu diwygio yn unol â'r darpariaethau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1, yn lle'r diffiniad o "llety diogel" rhodder y paragraff a ganlyn—

"ystyr "llety diogel" ("*secure accommodation*") yw llety—

(**1**) 2000 p. 14. Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i'r "appropriate Minister". Mae adran 121(1) yn diffinio hyn i olygu, o ran Cymru, Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau, pan y'u gwneir o dan adran 22, fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ac eithrio wrth ddiwygio rheoliadau nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn achosi unrhyw newid sylweddol yn y rheoliadau sy'n cael eu diwygio. Gan nad yw'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud yn achosi newidiadau sylweddol, nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y rheoliadau hyn.

(**2**) 2014 dccc 4.

(**3**) O.S. 2015/1988 (Cy. 298).

(a) a ddarperir at ddiben cyfyngu ar ryddid plant y mae'r meini prawf ym mharagraffau (a) a (b) o adran 119(1) yn gymwys iddynt, a

(b) sydd yng Nghymru neu Loegr oni nodir i'r gwrthwyneb;".

(3) Ym mharagraff (1) o reoliad 2—

(a) ar ôl y geiriau "awdurdod lleol" mewnosoder "neu awdurdod lleol yn Lloegr"; a

(b) ar ôl y geiriau "llety diogel" mewnosoder "yng Nghymru".

(4) Yn rheoliad 7, ar ôl paragraff (2) mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(3) Rhaid i unrhyw awdurdodiad mewn cysylltiad â phlentyn o'r fath beidio â bod yn hwy nag 28 o ddiwrnodau ar unrhyw un achlysur heb awdurdodiad pellach.".

(5) Ym mharagraff (1) o reoliad 9, ar ôl y geiriau "cartref plant" mewnosoder "yng Nghymru".

(6) Yn rheoliad 12—

(a) ar ôl y geiriau "cartref plant" mewnosoder "yng Nghymru",

(b) ym mharagraff (c), ar ôl y geiriau "awdurdod lleol" mewnosoder "neu'r awdurdod lleol yn Lloegr".

(7) Yn rheoliad 14, hepgorer paragraff (c).

(8) Ym mharagraff (1) o reoliad 15, yn lle "ac 16" rhodder "a 17".

(9) Ym mharagraff (1) o reoliad 16, yn lle "reoliad 7" rhodder "reoliad 14".

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 ("y Prif Reoliadau") a deuant i rym ar yr un pryd ar 6 Ebrill 2016.

Mae'r diwygiadau i reoliadau 1, 2, 9 a 12 o'r Prif Reoliadau yn gwneud newidiadau i sicrhau bod y gofynion a osodir ar awdurdodau lleol Cymreig mewn perthynas â lleoliadau mewn llety diogel yn gymwys pa un a ydynt yn lleoli plant yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r diwygiadau i reoliad 1 yn diwygio'r diffiniad o "llety diogel" fel bod y geiriau, lle y'u defnyddir, yn cyfeirio at lety yng Nghymru neu yn Lloegr oni nodir i'r gwrthwyneb. Mae'r diwygiadau i reoliadau 2, 9 a 12 yn mewnosod geiriau er mwyn egluro y cyfyngir y cyfeiriadau at "llety diogel" i Gymru yn y rheoliadau hynny.

Effaith y diwygiad i reoliad 7 yw sicrhau na ellir lleoli plentyn sydd wedi ei roi ar remánd i lety awdurdod lleol ac sydd wedi ei leoli mewn llety diogel am gyfnod hwy na 28 o ddiwrnodau heb droi at y llys.

Mae'r diwygiad i reoliad 14 yn dileu'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol sy'n gwneud cais i'r llys am awdurdod i leoli plant 16 a 17 oed mewn llety diogel pan fo'r plant 16 a 17 oed wedi eu lletya o dan adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r diwygiad i reoliad 15 wedi ei wneud er mwyn adlewyrchu diwygiad sydd wedi ei wneud i effaith adran 38 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 fel bod y rhwymedigaeth ar swyddog dalfa yn adran 38(6) i symud pobl ifanc sydd wedi eu harestio i lety awdurdod lleol bellach wedi ei hestyn i blant o dan 18 oed. Mae'r diwygiad hwn felly'n cysoni darpariaethau rheoliad 15 o'r Prif Reoliadau yn unol â hynny fel bod y trothwy is yn gymwys i bob un o'r plant hynny.

Mae'r diwygiad i reoliad 16 yn cywiro croesgyfeiriad gwallus.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.